


## Astudiaethau Cyfryngau

Mae'n bosibl dilyn y cwrs Lefel UG / Lefel Uwch heb astudio'r cwrs ar gyfer TGAU. Byddai gradd 'C' neu uwch yn angenrheidiol yn Saesneg oherwydd natur ddadansoddol y cwrs.

Cysylltwch â: Mrs C. Roberts

### Cynnwys a Strwythur y Cwrs

Uwch Gyfrannol (UG)	Uwch (UG + U2)
<p><b>Uned MS1 Cynrychioliadau'r Cyfryngau ac Ymatebion Iddynt</b></p> <p>Mae'r uned yn canolbwyntio ar sut caiff testunau'r cyfryngau eu hadeiladu a sut mae cynulleidfaoedd a defnyddwyr yn ymateb iddynt ac yn eu dehongli. Astudir cysyniadau megis stereoteipio, cynrychioliad ac ymateb cynulleidfa, ynghyd ag agweddau technegol y cyfryngau e.e. lluniad naratif a chodau technegol.</p> <p>Gellir archwilio unrhyw gyfryngau ond dewisir testunau'r cyfryngau a ddefnyddir ar y cwrs o blith y canlynol:</p> <p>Hysbysebion, cloriau DVDau, cloriau cryno ddisgiau, tudalennau blaen papurau newydd, cylchgronau (gan gynnwys comics), dilyniannau radio, darnau o ffilmiau, dilyniannau teledu, fideos cerddoriaeth, gwefannau a gemau cyfrifiadurol.</p> <p>Pwysiad: UG: 50% - U2: 25%</p>	<p><b>Uned MS3: Ymchwilio a Chynhyrchu yn y Cyfryngau</b></p> <p>Mae hwn yn fodiwl gwaith cwrs sydd wedi'i anelu at ddatblygu sgiliau ymchwil a chynhyrchu'r unigolyn.</p> <p>Pwysiad: U2: 25%</p>
<p><b>Uned MS2 Prosesau Cynhyrchu'r Cyfryngau</b></p> <p>Bwriad yr uned hon yw galluogi disgyblion i ddangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ym mhrosesau cynhyrchu'r cyfryngau drwy ymchwilio, cynllunio, cynhyrchu a gwerthuso.</p> <p>Yn yr uned hon, bydd gofyn i ddisgyblion gynhyrchu <b>tri</b> darn o waith cysylltiedig.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>cyn-gynhyrchiad</b> sy'n adlewyrchu ymchwil ac sy'n dangos technegau cynllunio</li> <li>• <b>cynhyrchiad</b> sydd wedi datblygu allan o'r cyn-gynhyrchiad</li> <li>• <b>adroddiad</b> o 1200 - 1600 gair sy'n gwerthuso proses yr unigolyn o weithio.</li> </ul> <p>Pwysiad: UG: 50% - U2: 25%</p>	<p><b>Uned MS4: Y Cyfryngau – Testun, Diwydiant a Chynulleidfa</b></p> <p>Mae arholiad allanol yn yr uned hon, sydd â ffocws ar allu'r myfyrwyr i adnabod a deall y berthynas rhwng testunau'r cyfryngau, eu cynulleidfaoedd a'r diwydiannau sy'n eu cynhyrchu a'u dosbarthu.</p> <p>Pwysiad: U2: 25%</p>
<p>UG = Dwy uned ym Mlwyddyn 12 ynghyd ag U2 = Dwy uned a ym Mlwyddyn 13 yn gyfwerth â Lefel A llawn</p>	



**Asesiad:**

- MS1—Papur ysgrifenedig 2 ½ awr
- MS2—Portffolio yn dangos cyn-gynhyrchiad, cynhyrchiad a gwaith gwerthuso.
- MS3—Portffolio yn dangos cyn-gynhyrchiad, cynhyrchiad a gwaith gwerthuso.
- MS4—Papur ysgrifenedig 2 ½ awr

**SGILIAU'R PWNC**

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ffurfiau'r cyfringau, cynrychiolaeth a dadleuon y gynulleidfa.

Barn a dyfarniadau annibynnol eglur wedi'u llunio o wahanol ddehongliadau o destunau'r cyfringau.

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o rai diwydiannau sy'n ymwneud â'r cyfringau.

Dangos dealltwriaeth feirniadol o gynhyrchu'r cyfringau.

Cymhwysio gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau dad-adeiladu er mwyn dadansoddi'r cyfringau.

Defnyddio terminoleg berthnasol a mynegiant ysgrifenedig cywir a dealladwy.

Trefnu a chyflwyno ymchwil ar destunau'r cyfringau.

Dadansoddi testunau'r cyfringau ynghyd â'u penderfynyddion hanesyddol a sefydliadol.



**Dilyniant 18+:**

Dewis eang o bosibiliadau gyrfaol gan gynnwys:

Addysg Uwch a Phrifysgol, Ymgynghoriaethau Cysylltiadau Cyhoeddus, Cwmnïoedd Cyfringau, Asiantaethau Cyfathrebu, Gyrfaoedd ym myd radio, ffilm a theledu, Dysgu a llawer mwy.

